

Arolygiad Iechyd Meddwl / Anabledd Dysgu (dirybudd)

**Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg:
Ysbyty Tywysoges Cymru,
Ward 14 a'r Uned Gofal
Dwys Seiciatrig**

1-3 Rhagfyr 2014

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copiâu o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni::

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfarthrebu
Arolygiaeth Gofal iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy:

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	3
3.	Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth	5
4.	Crynodeb	6
5.	Canfyddiadau	8
	Safonau Craidd	8
	Defnyddio'r Ddeddf Iechyd Meddwl.....	17
	Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl.....	18
6.	Y Camau Nesaf.....	19
	Atodiad A.....	20

1. Cyflwyniad

Mae ein harolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu yn cynnwys ysbytai annibynnol a gwasanaethau iechyd meddwl a ddarperir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Mae ymweliadau arolygu'n agwedd allweddol ar ein hasesiad o ansawdd a diogelwch gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledd dysgu yng Nghymru.

Yn ystod ein hymweliadau, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn sicrhau bod buddiannau'r cleifion yn cael eu monitro a bod lleoliadau'n cyflawni eu cyfrifoldebau trwy:

- Ffonitro'r cydymffurfriad â Deddf Iechyd Meddwl 1983, y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid
- Cydymffurfio, fel sy'n berthnasol, â Safonau Gofynnol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn unol â gofynion Deddf Safonau Gofal 2000 a Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011.

Canolbwynt arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu AGIC yw sicrhau bod unigolion sy'n derbyn gwasanaethau o'r fath yn:

- Ddiogel
- Derbyn gofal mewn amgylchedd therapiwtig, cartrefol
- Derbyn gofal a thriniaeth briodol gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol
- Cael eu hannog i gyfrannu at eu cynlluniau gofal a thriniaeth
- Cael eu cynorthwyo i fod mor annibynnol â phosibl
- Cael eu caniatáu a'u hannog i wneud dewisiadau
- Cael mynediad at amrywiaeth o weithgareddau sy'n eu hannog i wireddu eu llawn potensial
- Gallu cael mynediad at eiriolwyr annibynnol ac yn cael eu cynorthwyo i godi pryderon a gwneud cwynion
- Cael eu cynorthwyo i gynnal perthynas â theulu a ffrindiau pan fyddant yn dymuno gwneud hynny.

2. Methodoleg

Mae'r model arolygu a ddefnyddir gan AGIC i gyflawni'r arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu'n cynnwys:

- Cyfweiliadau a thrafodaethau cynhwysfawr gyda chleifion, perthnasau, eiriolwyr a chroestoriad o staff, gan gynnwys y Clinigydd Cyfrifol, therapyddion galwedigaethol, seicolegwyr, addysgwyr a staff nyrsio.
- Cyfweiliadau gydag uwch staff gan gynnwys aelodau'r bwrdd lle y bo'n bosibl.
- Archwilio dogfennau gofal gan gynnwys dogfennau'r tîm amlddisgyblaeth.
- Craffu ar bolisiau a gweithdrefnau allweddol.
- Arsylwi'r amgylchedd.
- Craffu ar yr amodau cofrestru ar gyfer y sector annibynnol.
- Archwilio ffeiliau staff gan gynnwys cofnodion hyfforddiant.
- Craffu ar weithgareddau hamdden a chymdeithasol.
- Craffu ar y dogfennau ar gyfer cleifion sy'n cael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.
- Ystyried gweithrediad Mesur Cymru (2010)¹.
- Archwilio cofnodion ataliaeth, cwynion, pryderon ac atgyfeirio Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed.
- Trosolwg o brosesau storio, rhoi, archebu a chofnodi cyffuriau gan gynnwys Cyffuriau a Reolir.
- Ystyriaeth o ansawdd bwyd.

¹ Deddfwriaeth sylfaenol a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r Mesur; ymhlith materion eraill, mae'n gwneud darpariaeth o ran asesu, cynllunio gofal a chydgysylltu mewn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd.

- Gweithrediad Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

Mae AGIC yn defnyddio amrywiaeth o adolygwyr arbenigol a lleyg ar gyfer y broses arolygu, gan gynnwys adolygwr â phrofiad helaeth o fonitro cydymffurfiad â Deddf Iechyd Meddwl 1983. Mae'r arolygiadau hyn yn cynnig cipolwg o'r safonau gofal y mae cleifion yn eu derbyn.

3. Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ymweliad dirybudd ag ysbyty Tywysoges Cymru, Pen-y-bont ar Ogwr fin nos ar 1 Rhagfyr a drwy'r dydd ar 2 a 3 Rhagfyr 2014. Arolygwyd Ward 14 a'r Uned Gofal Dwys Seiciatrig².

Ysbyty cyffredinol dosbarth a redir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (BIPABM) ac mae'n darparu amrywiaeth gynhwysfawr o wasanaethau iechyd aciwt gan gynnwys gwasanaethau cleifion mewnol, cleifion allanol a dydd.

Ward derbyniadau seiciatrig oedolion rhyw gymysg 20 gwely yw Ward 14. Roedd 20 o gleifion yn derbyn gofal ar y ward yn ystod ein hymweliad, ac roedd 13 ohonynt yn cael eu cadw gan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (y Ddeddf).

Roedd y ward ar glo a chadarnhawyd bod polisi drws ar glo ar waith.

Ward gofal dwys seiciatrig rhyw gymysg pum gwely i oedolion yw'r Uned Gofal Dwys Seiciatrig. Roedd pedwar claf a gadwyd wedi'u neilltuo i'r ward ar adeg yr ymweliad, ac roedd pob un ohonynt yn ddynion. Roedd y ward ar glo a chadarnhaodd y staff y ceir polisi drws ar glo y maent yn cydymffurfio ag ef.

Yn ystod ein harolygiad, adolygwyd cofnodion cleifion, cyfwelwyd cleifion a staff, adolygwyd yr amgylchedd gofal ac arsylwyd rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion. Roedd tîm adolygu AGIC yn cynnwys un Adolygwr Deddf Iechyd Meddwl, un adolygwr lleyg a dau aelod o staff AGIC.

² Mae Uned Gofal Dwys Seiciatrig yn darparu gofal a thriniaeth i bobl sy'n dioddef cyfnod mwyaf aciwt salwch meddwl. Mae Uned Gofal Dwys Seiciatrig yn amgylchedd ward diogel a digyffro sydd ar wahân i weddill uned cleifion mewnol.

4. Crynodeb

Amlygodd ein hymweliad â Ward 14 a'r Uned Gofal Dwys Seiciatrig yn Ysbyty Tywysoges Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr rai meysydd nodedig o arfer. Yn benodol, roedd safon y glendid ar draws y ddwy ward yn dda iawn trwy gydol ein hymweliad. Roedd yr amgylchedd yn gyffredinol yn foddhaol ac mewn cyflwr da. Fodd bynnag, roedd angen diwygio amgylchedd gofal yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig ymhellach oherwydd y ffaith y gellid agor ffenestri ar y ward hon yn ddigon llydan i roi gwrthrychau drwyddynt. Hefyd, nid oedd y man a ddefnyddir fel ystafell wahanu yn addas at y diben ac mae angen adolygu defnydd yr ystafell hon.

Roedd lefelau staffio isel yn broblem, yn enwedig ar y noson i ni gyrraedd, ac mae'n bosibl y gallai hyn beryglu diogelwch cleifion pe bai digwyddiad, gan nad oedd unrhyw staff ychwanegol ar gael i ddarparu cymorth. Roedd yn bryder i ni ddarganfod faint o amser yr oedd yn ei gymryd i recriwtio pobl i swyddi gwag, ac mae angen rhoi sylw brys i'r maes hwn o bryder. Er y nifer isel o staff, roedd y staff i ni eu cyfarfod yn ystod ein hymweliad yn grŵp hynod ymroddedig a nodwyd y ffordd gadarnhaol yr oedd y staff yn ymgysylltu â'r broses arolygu.

Amlygodd adolygiad o'r cynlluniau gofal a thriniaeth fanylion da iawn ym maes cynllunio rhyddhad ac ôl-ofal. Roedd agweddau yn y cynlluniau gofal a thriniaeth sydd angen sylw ac amlygir y rhain yn adran Gofal Iechyd Cyffredinol ein hadroddiad.

Mae'r data a roddwyd i ni yn ystod yr ymweliad yn cynnig tystiolaeth o gyfraddau gwael o hyfforddiant staff mewn rhai meysydd. Mae'r rhain yn cynnwys hyfforddiant tân, rheoli heintiau, Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a'r Ddeddf Galluedd Meddyliol. Nid oedd unrhyw dystiolaeth fod staff nyrso a gweithwyr cymorth yn cael eu goruchwyllo. Roedd ffeiliau staff wedi cael eu symud o Ward 14 hefyd ac nid oedd unrhyw systemau electronig ar waith, felly nid oeddem yn gallu archwilio gwybodaeth am gyflogaeth a hyfforddiant yn llawn.

Mae gwasanaeth eirioli rheolaidd ar gael i'r holl gleifion ar y ddwy ward. Roedd gan y cleifion farn uchel o'r gwasanaeth hwn ac roedd yn braf gweld yr arfer hwn ar waith i gefnogi lles cleifion ymhellach.

Roedd y tîm amlddisgyblaeth ar yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig yn gweithio'n dda, a chadarnhaodd y staff bod gan yr holl ddisgyblaethau statws a mewnbwn cyfartal o ran gofal a thriniaeth cleifion. Yn anffodus, fe'n hysbyswyd gan y staff nad oedd proses y tîm amlddisgyblaeth ar Ward 14 yn effeithiol, gan nodi rhesymau amrywiol am ei haneffeithiolrwydd. Fodd bynnag, roedd rheolwr ward

newydd wedi dechrau gweithio ar Ward 14 yn ddiweddar, a chynhaliwyd cyfarfod yn ystod ein hymweliad i drafod problemau'r tîm amlddisgyblaeth a dod o hyd i ffordd o wella proses y tîm amlddisgyblaeth.

Nid oedd system larymau galw nyrsys yn yr ystafelloedd gwely ar Ward 14 ac nid oedd y system larymau personol i staff yn gweithio'n llawn, gan nad oedd tri o'r chwe larwm yn gweithio gan nad oedd batris ynddynt. Mae diogelwch staff a chleifion yn hollbwysig ac roedd angen rhoi sylw brys i'r meysydd hyn.

5. Canfyddiadau

Safonau Craidd

Amgylchedd y Ward

Ward 14

Ward derbyniadau aciwt 20 gwely ar glo yw Ward 14, ar gyfer cleifion gwrywaidd a benywaidd. Ystafelloedd cysgu mawr sydd ar y ward yn bennaf, yn cynnig hyd at bedwar gwely fesul ystafell gysgu. Mae rhai ystafelloedd sengl ar gael hefyd. Mae cyfleusterau cawod a thoiled wedi'u neilltuo i ddynion a menywod ar gael. Cynigir dwy lolfa, ystafell fwyta ac ystafell weithgareddau i gleifion eu defnyddio ar y ward.

Mae'r amgylchedd yn lân, yn olau ac yn awyrog. Roedd y dodrefn a'r dyfeisiau ar y ward yn gweithio'n dda. Ceir man awyr agored penodol i'r ward i'r cleifion ei ddefnyddio, sy'n cynnwys cysgodfa smygu.

Yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig

Ward rhyw gymysg pum gwely yw'r Uned Gofal Dwys Seiciatrig ac mae ystafell wahanu ar gael (trafodir addasrwydd yr ystafell hon yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn). Roedd y ward yn olau, yn awyrog ac yn lân iawn. Mae gardd cwrt yn hygyrch o'r lolfa a hefyd yn cael ei defnyddio fel man smygu. Roedd y dodrefn a'r gosodiadau mewn cyflwr da. Mae ffôn talu ar gael i gleifion ei ddefnyddio a cheir lolfa dawel ac ystafell weithgareddau i gleifion eu defnyddio ar y ward.

Nid oedd rhai ffenestri ar y ward yn agor ac felly nid oedd unrhyw fynediad at awyr iach ar gael. Ar y llaw arall, roedd rhai ffenestri ar y ward yn agor digon i allu rhoi eitemau drwyddynt.

Mae'r cyfleusterau cawod a thoiledau'n agor yn uniongyrchol i lolfa sy'n peryglu preifatrwydd ac urddas, yn enwedig os oes cleifion o'r ddau ryw yn preswyllo ar y ward.

Argymhelliad

Mae angen rhoi sylw i'r amgylchedd gofal yn yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig, ac i'r ffenestri'n benodol.

Diogelwch

Roedd y lefelau staffio ar y ddwy ward i ni ymweld â nhw yn destun pryder a nodwyd niferoedd annigonol. Roedd dwy nyrs gofrestredig ac un gweithiwr cymorth gofal iechyd ar ddyletswydd ar gyfer ugain o gleifion ar Ward 14 yn ystod ein hymweliad gyda'r nos. Roedd un nyrs gofrestredig yn ymdrin â derbyniad adran 136, roedd y gweithiwr cymorth gofal iechyd yn arsylwi claf ar sail 1:1 ac roedd y nyrs gofrestredig arall yn rhoi cyffuriau. O ganlyniad i'r gweithgareddau hyn, nid oedd unrhyw staff ar gael i arsylwi'r cleifion eraill ar y ward.

Roedd un nyrs gofrestredig ac un gweithiwr cymorth gofal iechyd ar ddyletswydd ar gyfer tri chlaf yn yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig. Nid oedd yn eglur sut fyddai staff yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig wedi ymdopi pe bai problem fawr wedi codi, fel ataliaeth neu dderbyniad. Roedd diffyg staff difrifol ar Ward 14 hefyd ac ni fyddent wedi gallu cynnig cymorth i'r Uned Gofal Dwys Seiciatrig, felly gellid peryglu diogelwch cleifion a staff pan fo lefelau staffio mor isel.

Nid yw'r ystafell wahanu yn yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig yn addas at y diben. Ceir manau na ellir eu gweld yn yr ystafell sy'n golygu na fyddai'r staff yn gallu gweld cleifion mewn manau penodol, ni cheir cloc i ganiatáu cyfeiriadedd ac nid oes unrhyw fynediad uniongyrchol at ystafell ymolchi. Mae angen cynnal adolygiad o'r ystafell hon.

Nid oedd y system larymau personol ar gyfer staff ar Ward 14 yn gweithio'n llawn. Nid oedd tri o'r chwe larwm yn gweithio gan fod angen batris arnynt. Mae'n hanfodol bod gan staff fynediad at larymau sy'n gweithio er mwyn sicrhau diogelwch eu hunain a'r cleifion.

Nid oes system galw nyrsys yn y rhan fwyaf o ystafelloedd gwely ar Ward 14. Mae'n rhaid darparu system galw nyrsys ar gyfer pob man i gleifion, gan gynnwys ystafelloedd gwely. Mae'r system galw nyrsys yn yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig ar y wal, a byddai'n anodd ei gyrraedd pe bai argyfwng.

Argymhelliad

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd gynnal adolygiad staffio er mwyn sicrhau nad yw diogelwch cleifion a staff ar bob ward yn cael ei beryglu oherwydd niferoedd staff isel.

Mae angen cynnal a chadw larymau personol y staff yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio.

Mae angen adolygu'r system galw nyrsys er mwyn sicrhau ei bod yn hygyrch ac ar gael i gleifion ei defnyddio.

Y tîm amlddisgyblaeth

Amlygodd trafodaethau gyda'r staff gyferbyniad rhwng y ddwy ward o ran eu gwaith tîm amlddisgyblaeth. Fe'n hysbyswyd am y berthynas waith dda yn yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig, sy'n galluogi grŵp y tîm amlddisgyblaeth i weithio'n dda. Fe'n hysbyswyd bod yr holl staff yn gweithio'n dda â'i gilydd, gan wneud yn siŵr bod unrhyw gynllun a roddir ar waith yn gweithio. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw therapydd galwedigaethol yn mynychu cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaeth yn yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig ar y pryd. Gwahoddir cydgysylltwyr gofal i fynychu cyfarfodydd ac mae gan bob aelod fewnbwn cyfartal i drafodaethau.

Codwyd pryderon gan y staff am gyfarfodydd y tîm amlddisgyblaeth ar Ward 14. Nid oedd y tîm amlddisgyblaeth yn gweithio'n dda ar adeg ein hymweliad a'r rheswm a roddwyd i ni am hyn oedd problemau o ran y berthynas rhwng rhai o'r disgyblaethau clinigol. Fe'n hysbyswyd gan y staff nad yw safbwyntiau proffesiynol yn cael eu gwerthfawrogi bob amser sy'n golygu nad yw'r tîm yn gweithio'n broffesiynol ac ar y cyd ar gyfer canlyniadau cleifion. Roedd rheolwr ward newydd wedi dechrau'n ddiweddar a chynhaliwyd cyfarfod i ddatrys y problemau sy'n effeithio ar y tîm amlddisgyblaeth. Mae'n hanfodol yr ymdrinnir â phob problem yn brydlon a bod y tîm amlddisgyblaeth yn gweithio mewn ffordd broffesiynol a chynhwysol.

Argymhelliad

Mae angen i gynrychiolwyr pob disgyblaeth fod yn bresennol a chynnig mewnbwn mewn cyfarfodydd tîm amlddisgyblaeth.

Mae angen rhoi sylw mwy brys i ganlyniad y cyfarfod yn ymwneud â phroblemau o ran y berthynas rhwng rhai o'r disgyblaethau clinigol er mwyn gwella canlyniadau cleifion.

Preifatrwydd ac urddas

Nodwyd problemau'n ymwneud â diffyg preifatrwydd ac urddas yn ystod ein hymweliad. Nid yw'r ystafelloedd cysgu mawr ar Ward 14 yn cynnig digon o breifatrwydd i'r cleifion. Defnyddir llenni i wahanu pob gwely, ond gall cleifion eraill glywed unrhyw sgysiau rhwng y staff a'r claf.

Mae'r cyfleusterau toiled a chawod yn yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig yn neillryw ac mae'r gawod yn agor yn uniongyrchol i'r lolfa sy'n arwain at broblemau urddas i gleifion.

Argymhelliad

Mae angen adolygu'r meysydd a nodir yn yr adran hon ar frys. Ni ddylai preifatrwydd ac urddas unrhyw glaf fod mewn perygl. Mae angen craffu'n rheolaidd i sicrhau bod gwelliant yn cael ei hybu yn y maes hwn a'i fod yn effeithiol.

Therapiau a gweithgareddau cleifion

Amlygodd trafodaethau gyda'r staff a'r cleifion safbwyntiau cymysg am y therapïau a'r gweithgareddau a gynigir ar y ddwy ward. Canmolwyd y gweithgareddau a gynigir gan rhai staff a chleifion, gan ddweud bod cleifion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau'n rheolaidd, gan gynnwys gwyllo DVDau, darllen llyfrau, ymarfer corff yn yr aml-gampfa a chwarae pŵl a gemau amrywiol eraill. Er na welwyd amserlen gweithgareddau ar y wardiau ar adeg ein hymweliad, fe'n hysbyswyd bod therapyddion galwedigaethol yn cyfarfod â'r cleifion a bod amserlen benodol i gleifion yn cael ei datblygu. Roedd grŵp gwau yn cael ei gynnal ar adeg ein hymweliad, ond roedd y cleifion a oedd yn bresennol ac yn cymryd rhan yn y grŵp o ward arall. Anogwyd cleifion o Ward 14 i gymryd rhan, ond ni chymerodd unrhyw gleifion ran yn y sesiwn.

Siaradodd y staff am eu hymrwymiad i helpu a chynorthwyo cleifion yn ôl i'r gymuned. Mae cleifion â seibiant adran 17 yn mynd am dro y tu allan i'r ysbyty, ac yn mynd i nofio a siopa. Roedd yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig wedi prynu cerbyd yn ddiweddar a fydd yn galluogi cleifion i fynd i weithgareddau cymdeithasol a hamdden.

Nid oes unrhyw therapydd galwedigaethol ar gael yn yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig ac nid oedd unrhyw wedi'i recriwtio i'r swydd wag eto. Daw unrhyw gymorth yn y cyfamser gan gydgysylltydd gweithgareddau Ward 14. Mae'r penwythnosau'n fwy hamddenol na diwrnodau gwaith yn gyffredinol gan nad yw unrhyw therapyddion galwedigaethol na chydgysylltwyr gweithgareddau'n gweithio. Hysbyswyd ein tîm adolygu y bydd staff ar lefel ward yn hwyluso ymweliadau a gweithgareddau yn ystod y cyfnodau hyn.

Ceir dau ddiwrnod llawn o fewnbwn seicoleg yr wythnos ar y ddwy ward ac mae therapydd galwedigaethol ar gael ar Ward 14. Mae'r disgyblaethau hyn yn cynnig amrywiaeth o therapïau ac ymyriadau i gleifion gan gynnwys rheoli straen, rheoli gorbryder a rhoi'r gorau i smygu. Fodd bynnag, roedd y staff yn teimlo bod yr amser sydd ar gael iddynt gynnal amgylchedd therapiwtig parhaus yn anodd oherwydd lefelau staffio gwael a'r llwyth gwaith yn sgil hynny.

Arweiniodd diffyg cyllideb, lle a manau storio at sylwadau negyddol. Mae deunyddiau ac adnoddau'n brin iawn gan mai ychydig iawn o arian traul sydd ar gael. Nid oedd teledu yn y lolfa i ddynion ar adeg ein hymweliad. Roedd yn rhaid i'r cleifion ddefnyddio'r lolfa i fenywod i wyllo'r teledu. Ni allai'r staff gadarnhau pryd y byddai teledu newydd yn cael ei brynu gan nad oedd unrhyw gyllideb. Hefyd, gellir ond cynnig rhai therapïau yn y lolfeydd oherwydd diffyg lle.

Argymhelliad

Mae'n ofynnol neilltuo therapi galwedigaethol ar bob ward er mwyn sicrhau bod cleifion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ac yn derbyn therapïau a fydd yn eu cynorthwyo i wella.

Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r gyllideb sydd ar gael ar gyfer therapi galwedigaethol fel y gellir cael gafael ar yr holl offer angenrheidiol.

Bwyd a maetheg

Roedd adborth gan gleifion a staff am fwyd yn gymysg. Roedd cleifion yn yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig yn fodlon â'r ddarpariaeth fwyd yn gyffredinol, tra bod adborth gan eraill bod diffyg amrywiaeth i'r bwyd a bod angen ei wella.

Rhoddir bwyd i gleifion â gofynion dietegol penodol sy'n diwallu eu hanghenion. Fe'n hysbyswyd gan y staff bod y gegin yn cefnogi ceisiadau am amrywiadau o'r fwydlen, ac y gellir darparu saladau a phowlenni ffrwythau.

Os bydd angen diod neu fyrbryd ar glaf y tu allan i'r amser prydau neilltuedig yna fe'i rhoddir iddynt. Gall y cleifion ofyn am de a choffi ac mae'r staff yn paratoi'r diodydd hyn iddynt. Mae dŵr a sgwas ar gael ar unrhyw adeg ac mae'r wardiau'n cadw ffrwythau a bara i wneud tost ar y ward. Os bydd brechedanau'n weddill ar ôl pryd bwyd, cânt eu cadw yn oergell y ward i gleifion eu bwyta'n ddiweddarach.

Dywedodd y cleifion a'r staff bod diffyg amrywiaeth i'r bwyd a bod bwydydd tebyg yn cael eu gweini'n rheolaidd. Nododd y staff y diffyg amrywiaeth o ran prydau i gleifion sy'n aros ar y ward am gyfnodau hwy o amser.

Caiff bwydlenni eu hanfon i bob ward yn wythnosol ac fe'n hysbyswyd gan y staff eu bod yn gwneud dewisiadau ar ran y cleifion. Y tro cyntaf y bydd claf yn penderfynu beth i'w fwyta yw pan fydd y bwyd yn cyrraedd ar y ward ar adeg y pryd penodol hwnnw. Dylid ystyried caniatáu cleifion ei ddewis eu prydau eu hunain yn gynharach.

Cafwyd sylwadau cadarnhaol ar faint dognau yn gyffredinol, ond dywedodd y staff bod bwyd a anfonwyd i'r ward yn ddiweddar yn annigonol ac y bu'n rhaid iddynt ofyn am ragor o brydau.

Argymhelliad

Mae angen cynnal adolygiad o'r bwyd a ddarperir i gleifion er mwyn sicrhau bod digon o fwyd ac amrywiaeth ar gael.

Dylid annog cleifion i ddewis eu prydau eu hunain o fwydlenni a ddarperir lle y bo'n bosibl.

Hyfforddiant

Nododd adolygiad o ffeiliau staff yn yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig nad oedd y ffeiliau a gedwir ar lefel y ward yn cynnwys gwybodaeth am gyflogaeth, a thystiolaeth o ffurflen gais, disgrifiad swydd a thystlythyrau'n benodol. Fe'n hysbyswyd y cedwir y wybodaeth hon gan y rheolwr gwasanaethau clinigol nad oedd ar gael ar adeg ein hymweliad. Ni allwn gynnig sylwadau ar y maes hwn felly, ond bydd ymweliadau yn y dyfodol yn sicrhau adolygiad o ffeiliau cyflogaeth.

Nid oedd tystiolaeth o'r system sydd ar waith ar gyfer adnewyddu archwiliadau gan y gwasanaeth datgelu a gwahardd ar gyfer gweithwyr cyflogedig presennol. Oherwydd cyfyngiadau ariannol, fe'n hysbyswyd mai dim ond y staff hynny sy'n gweithio gyda phlant wnaiff y bwrdd iechyd eu hadnewyddu'n rheolaidd. Bydd unrhyw aelod newydd o staff, neu unrhyw staff sy'n newid swydd yn derbyn archwiliad gan y gwasanaeth datgelu a gwahardd. Fodd bynnag, nid yw staff sy'n aros mewn swydd am gyfnod o amser yn derbyn archwiliad newydd gan y gwasanaeth datgelu a gwahardd yn rheolaidd. Mae angen adolygu'r arfer hwn ac mae angen i'r bwrdd iechyd roi sicrwydd bod yr holl staff sy'n gofalu am gleifion iechyd meddwl wedi derbyn yr archwiliadau gofynnol.

Mae staff seicoleg a therapi galwedigaethol yn derbyn goruchwyliaeth fisol a gofnodir a dywedodd y staff i ni siarad â nhw eu bod o'r farn bod hyn yn gymorth. Canfu adolygiad o systemau a ffeiliau nad oedd unrhyw dystiolaeth fod goruchwyliaeth ffurfiol a gofnodir ar waith ar gyfer staff nyrsio a gweithwyr cymorth. Dywedodd rhai staff nyrsio eu bod yn cael goruchwyliaeth anffurfiol, ond nid oedd unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig fod hyn wedi digwydd. Dywedodd y staff yr hoffent oruchwyliaeth fwy rheolaidd.

Dywedodd mwyafrif y staff eu bod yn derbyn gwerthusiad blynyddol. Fodd bynnag, ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth gennym fod unrhyw systemau ar waith a allai nodi pryd yr oedd gweithiwr cyflogedig wedi derbyn gwerthusiad ddiwethaf a phryd y disgwyliwyd i'r nesaf gael ei gynnal.

Roedd y daenlen sydd ar waith i fonitro adnewyddiadau cofrestriadau proffesiynol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig yn wag i'r rhan fwyaf o'r staff a restrwyd. Roedd yr aelodau staff hynny a oedd â dyddiad ar gyfer adnewyddu wedi mynd heibio ers talwm. Esboniodd rheolwr y ward nad oedd ei daflen yn gyfredol ac y caiff cronfa ddata a gedwir gan y rheolwr gwasanaethau clinigol ei ddsbarthu iddo ef fel y gall gadarnhau'r cofrestriad priodol. Ni chynhyrchwyd unrhyw dystiolaeth i gadarnhau bod gan yr holl staff nyrsio gofrestriad cyfredol gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, er i reolwr y ward gadarnhau ar lafar bod ganddynt. Mae'n hanfodol bod un system yn cael ei defnyddio i gynnig tystiolaeth o gofrestrïadau proffesiynol a bod gan y staff gofynnol fynediad at y system bob amser. Nid oedd y system ddyblyg a oedd ar waith ar adeg ein hymweliad yn ein bodloni bod adnewyddiadau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn cael eu rheoli'n effeithiol.

Mae rhaglen hyfforddiant gorfodol ar waith ar gyfer yr holl staff. Roeddem yn falch o nodi bod mwyafrif y staff yn gyfredol yn y maes hwn. Nodwyd rhai eithriadau ac mae angen cadarnhad i sicrhau y trefnir bod staff yn derbyn eu hyfforddiant gofynnol ac yn ei gwblhau. Roedd gan y staff i ni siarad â nhw wahanol lefelau o wybodaeth a dealltwriaeth o ran Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, Deddf Iechyd Meddwl 1983, y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Argymhellir bod y bwrdd iechyd yn adolygu gwybodaeth a dealltwriaeth staff yn y maes hwn ac yn darparu hyfforddiant i staff er mwyn sicrhau cysondeb o ran gwybodaeth a defnydd.

Nid oedd unrhyw ffeiliau na systemau ar waith ar Ward 14 i gofnodi a phrofi unrhyw un o'r safonau yr oeddem yn eu hadolygu. Fe'n hysbyswyd ar adeg ein hymweliad bod ffeiliau staff wedi cael eu symud oddi ar y ward i gael eu diweddarau. Argymhellir bod y ffeiliau hyn yn aros ar y safle ac y rhoddir amser a chymorth i'r staff er mwyn sicrhau bod y ffeiliau'n gywir a chyfredol.

Argymhelliad

Os yw'r Rheolwr Gwasanaethau Clinigol am gadw ffeiliau staff, mae'n ofynnol bod mynediad at y ffeiliau ar gael i reolwyr wardiau a phersonél uwch eraill bob amser.

Mae gormod o systemau ar waith ar gyfer cofnodi a monitro cofrestriad proffesiynol, sy'n arwain at ddata anghywir. Dylai fod un system ar waith i gofnodi a monitro data.

Mae angen sefydlu, cofnodi ac ymsefydlu goruchwyliaeth staff reolaidd ar gyfer yr holl staff.

Dylai'r bwrdd iechyd adolygu gwybodaeth a dealltwriaeth staff o ran Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, Deddf Iechyd Meddwl 1983, y Ddeddf

Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Dylid darparu hyfforddiant i staff fel sy'n ofynnol er mwyn sicrhau cysondeb o ran gwybodaeth a defnydd.

Dylai'r Bwrdd Iechyd Sicrhau AGIC bod yr holl staff sy'n gweithio gyda grŵp cleifion agored i niwed yn derbyn yr holl archwiliadau gofynnol i gefnogi gweithdrefnau diogelu cadarn.

Mae angen i'r Bwrdd Iechyd adolygu'r weithdrefn o ganiatáu i ffeiliau staff gael eu symud oddi ar y safle i'w diweddarau.

Llywodraethu

Amlygodd ein hymweliad bryderon o ran trefniadau llywodraethu a phrosesau archwilio Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, ac o ran staffio a chyfathrebu'n benodol. Mae'r adroddiad yn amlygu ein pryderon am nifer y staff a oedd ar ddyletswydd ar adeg ein hymweliad. Er mwyn sicrhau diogelwch cleifion a staff, mae'n rhaid i'r Bwrdd sefydlu trefniadau cadarn ar gyfer adrodd a dwysau pryderon am lefelau staff yn rhagweithiol ac ymatebol. Roedd yn amlwg o drafodaethau gyda staff bod consensws cyffredinol yn bodoli ar y wardiau o ran uchafswm y staff a gaiff ei ddefnyddio a'r broses o ddod o hyd i staff ychwanegol os oes angen. Er i hyn gael ei wrthod gan yr uwch reolwyr, mae bwch o ran cyfathrebu ac eglurder gwybodaeth wedi arwain at shifftiau'n cael eu staffio â niferoedd peryglus o isel. Mae'n rhaid gwneud canllawiau gweithredol yn eglur i'r holl staff ac mae angen diweddarau a rhannu polisïau a phrotocolau angenrheidiol.

Roedd un pryder penodol a nodwyd o'n hymweliad yn ymwneud â recriwtio staff newydd. Fe'n hysbyswyd bod y broses ar gyfer recriwtio i swyddi gwag yn cymryd dros bedwar mis. Mae'r amserlen hon yn annerbyniol o ystyried y diffyg staff a nodwyd yn ystod ein hymweliad. Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r broses recriwtio a nodi'r rhesymau am oediadau annerbyniol o'r fath. Mae angen i'r bwrdd iechyd symud i ddull mwy rhagweithiol o reoli a monitro'r amser a gymerir i recriwtio staff. Dylai'r bwrdd iechyd ddatblygu strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â'r mater hwn a chymryd camau i gyfathrebu a darparu cynlluniau recriwtio'n llawn.

Argymhelliad

Dylai'r bwrdd ddatblygu trefniadau cadarn ar gyfer adrodd a dwysau pryderon am lefelau staff yn rhagweithiol ac ymatebol.

Mae angen datblygu strategaeth ar gyfer y gwasanaeth ac mae'n rhaid i'r bwrdd gymryd camau i gyfathrebu a darparu cynlluniau recriwtio'n llawn.

Defnyddio'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Adolygwyd dogfennau cadw statudol tri o'r cleifion a gedwir a oedd yn derbyn gofal ar ddwy o'r wardiau ar adeg ein hymweliad a thri o ffeiliau'r gweinyddwyr iechyd meddwl. Nodwyd y materion nodedig canlynol:

- Perthynas dda a chefnogol rhwng gweinyddwyr y Ddeddf Iechyd Meddwl a staff y ward
- Roedd tystysgrifau caniatâd i driniaeth, CO2 a CO3 yn cynnwys nodiadau ar gwblhad priodol
- Roedd sylwadau a wnaed ar gleifion mewn ysbytai cyffredinol a gadwyd dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 yn llawn gwybodaeth o ran sut i ddiogelu buddiannau'r claf.
- Ceir gwybodaeth gynhwysfawr i ymarferwyr cyffredinol ar gleifion a dderbyniwyd gan gynnwys eu manylion adran a meddyginiaeth a roddwyd ar bresgripsiwn.

Roeddem yn falch o nodi bod y ffeiliau a archwiliwyd yn gyson â'i gilydd yn gyffredinol. Fodd bynnag, roedd y nodiadau ward yn y brif ffeil ac nid oedd llawer yn cynnwys adran gref y gellir ei nodi'n rhwydd i'w gwneud yn rhwydd cyfeirio atynt. Mae'r papurau adran hyn yn bapurau cyfreithiol a dylid eu storio fel y gall staff hyfforddedig sy'n gofalu am y cleifion sicrhau eu hunain am gyfreithlondeb cadw'r claf.

Nid oedd rhai ffurflenni ar lefel y ward yn nodi ethnigrwydd cleifion.

Nid oedd hyfforddiant Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 wedi cael ei gynnal yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, o bosibl oherwydd y diffyg staff wedi'u hyfforddi. Roedd rheolwr newydd wedi'i benodi a fydd yn sicrhau bod yr hyfforddiant yn cael ei ddarparu.

Dylai rheolwyr gydnabod yr angen am ddeunydd sganio fel bod papurau cyfreithiol llawn ar gael. Ar adeg ein hymweliad, bu'n rhaid i staff adael y ward i sganio dogfennau cyfreithiol. Mae hwn yn ddefnydd gwael o amser nyrsys ac fe'n hysbyswyd gan y staff y byddai cael mynediad at sganiwr ar y ward o fudd.

Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl

Adolygwyd dogfennau cynllunio gofal gennym yn yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig a nodwyd y materion canlynol:

- Nid yw canlyniadau asesu risg yn cael eu trosglwyddo i gynlluniau gofal a thriniaeth
- Diffyg tystiolaeth fod y drefn feddyginiaeth yn cael ei thrafod gyda'r cleifion
- Diffyg mynegai strwythuredig o ran lle caiff gwybodaeth ei storio ym mhob ffeil

Argymhelliad

Roedd y siartiau cydbwysedd hylif ar gyfer claf ar Ward 14 yn adlewyrchu nad oedd digon o hylif yn cael ei yfed. Nid oedd yr holl siartiau'n bresennol yn y cofnodion archif ac nid oedd unrhyw gyfarwyddiadau wedi'u cofnodi. Mae'n rhaid cwblhau siartiau cydbwysedd hylif yn briodol ac mae'n rhaid i gleifion dderbyn digon o hylif.

6. Y Camau Nesaf

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd gwblhau Cynllun Gwella (Atodiad A) i ddelio â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad a chyflwyno eu Cynllun Gwella i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai Cynllun Gwella'r Bwrdd Iechyd ddatgan yn glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Ysbyty Tywysoges Cymru'n cael eu trin, gan gynnwys amserlenni.

Caiff cynllun gwella'r bwrdd iechyd, unwaith y caiff ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu barhaus ar iechyd meddwl/anabledd dysgu.

Atodiad A

Iechyd Meddwl/ Anabledd Dysgu: Cynllun Gwella

Bwrdd Iechyd: Abertawe Bro Morgannwg

Ward/iau: Ward 14 a'r Uned Gofal Dwys Seiciatrig

Dyddiad yr arolygiad : 1 - 3 Rhagfyr 2014

Rhif Tudalen	Argymhelliad	Camau gan y Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
8	Mae angen rhoi sylw i'r amgylchedd gofal yn yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig, ac i'r ffenestri'n benodol.	Mae cynllun gwella cynnal a chadw yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn adroddiad AGIC ynghlwm (Atodiad 1)	Rheolwr Cyffredinol	31 Mawrth 2015
9	Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd gynnal adolygiad staffio er mwyn sicrhau nad yw diogelwch cleifion a staff ar bob ward yn cael ei beryglu oherwydd niferoedd staff isel.	Gallwn hysbysu bod lefelau aciwtedd cleifion yn cael eu hasesu'n rheolaidd ochr yn ochr â phrotocolau asesu risg sefydledig er mwyn sicrhau y cynhelir lefelau staff diogel a digonol. Wrth i aciwtedd gynyddu, caiff mwy o adnoddau eu neilltuo i ddarparu gofal diogel. O ganlyniad, mae asesu cyfredol wedi arwain at gynydd o 1 aelod o staff gwrywaidd yn yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig. Hefyd, ac yn effeithiol ar	Rheolwr y Gwasanaethau i Oedolion	Cwblhawyd

Rhif Tudalen	Argymhelliad	Camau gan y Bwrdd lechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		<p>unwaith, mae'r Gyfarwyddiaeth lechyd Meddwl wedi penderfynu y bydd staff ychwanegol yn cael eu darparu gyda'r nos ar gyfer unrhyw arsylwadau lefel uchel arbennig ar Ward 14 a'r Uned Gofal Dwys Seiciatrig ac nid o adnoddau presennol.</p> <p>Yng nghyswllt y cynlluniau mwy tymor canol i hirdymor, bydd moderneiddio gwasanaethau ar gyfer unigolion ag ymddygiad heriol, yn gysylltiedig â'r rhaglen ddadgomisiynu ar gyfer Ysbyty Cefn Coed, yn arwain at ganoli'r adnodd staffio, gydag Uned Gofal Dwys Seiciatrig well yn Ysbyty Tywysoges Cymru. O ganlyniad uniongyrchol i'r datblygiad hwn, gallwn hysbysu y bydd y lefelau staff yn yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig yn 4 cyfwerth ag amser llawn ar ddyletswydd yn ystod y nos.</p> <p>Mae Rheolwr y Gwasanaethau lechyd Meddwl i Oedolion wedi hysbysu y bydd yn cynnal adolygiad ar draws y Gyfarwyddiaeth o sefydliadau nyrsio yn y gwasanaeth Cleifion Mewnol Aciwt, yn y Gyfarwyddiaeth lechyd Meddwl drwyddi draw.</p> <p>Mae adolygiadau llawn ar draws y Gyfarwyddiaeth gyfan wedi nodi bod lefelau</p>	<p>Rheolwr y Gwasanaethau i Oedolion</p> <p>Rheolwr y Gwasanaethau i Oedolion</p> <p>Pennaeth Nyrsio</p>	<p>31 Mawrth 2015</p> <p>31 Mawrth 2015</p> <p>31 Mai 2015</p>

Rhif Tudalen	Argymhelliad	Camau gan y Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		<p>staffio a Feincnodwyd ar gyfer Gwasanaethau i Oedolion ar hyn o bryd yn y GIG ar y pwynt canol ar draws y 66 sefydliad yn yr archwiliad. Mae'r Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl hefyd yn cymryd rhan mewn Peilot Cenedlaethol ar ran Swyddfa'r Prif Swyddog Nyrsio o ran Aciwtedd Nyrsio a Llwyth Gwaith mewn gwasanaeth cleifion mewnol yn eu cyfanrwydd. Mae'r gwaith hwn yn cael ei arwain trwy Grŵp Cyngori Uwch-nyrsys Cymru Gyfan. Cyflwynwyd adroddiad i Fwrdd Nyrsio a Bydwreigiaeth Bwrdd Iechyd PABM. Mae papur i'r Prif Swyddi Nyrsio'n cael ei baratoi gan Grŵp Cyngori Uwch-nyrsys Cymru Gyfan (GCUCG) ar gyfer cyfarfod Mawrth / Ebrill i wneud penderfyniadau cenedlaethol.</p>		
9	Mae angen cynnal a chadw larymau personol y staff yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio.	Mae cynllun gwella cynnal a chadw yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn adroddiad AGIC ynghlwm (Atodiad 1)	Rheolwr Cyffredinol	31 Mawrth 2015
9	Mae angen adolygu'r system galw nyrsys er mwyn sicrhau ei bod yn hygyrch ac ar gael i gleifion ei defnyddio.	Mae cynllun gwella cynnal a chadw yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn adroddiad AGIC ynghlwm (Atodiad 1)	Rheolwr Cyffredinol	31 Mawrth 2015
10	Mae angen i gynrychiolwyr pob disgyblaeth fod yn bresennol a chynnig mewnbwn mewn cyfarfodydd tîm amlddisgyblaeth.	Ar ôl penodi Rheolwr Ward newydd ar gyfer Ward 14, cyflwynwyd proses gadarn i sicrhau gwaith tîm amlddisgyblaeth effeithiol. Mae'r broses hon wedi derbyn ymrwymiad gan yr holl	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd

Rhif Tudalen	Argymhelliad	Camau gan y Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		ddisgyblaethau clinigol a bydd diffyg cydymffurfiad yn cael ei symud i fyny i lefel uwch reolwyr.		
10	Mae angen rhoi sylw mwy brys i ganlyniad y cyfarfod yn ymwneud â phroblemau o ran y berthynas rhwng rhai o'r disgyblaethau clinigol er mwyn gwella canlyniadau cleifion.	Bydd yr argymhellion hyn yn cael eu cynnwys yn y pwyntiau gweithredu a nodir uchod.	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd
11	Mae angen adolygu'r meysydd a nodir yn yr adran hon ar frys. Ni ddylai preifatrwydd ac urddas unrhyw glaf fod mewn perygl. Mae angen craffu'n rheolaidd i sicrhau bod gwelliant yn cael ei hybu yn y maes hwn a'i fod yn effeithiol.	<p>O ran Ward 14, bydd y staff bob amser yn ymdrechu i sicrhau cyfrinachedd cleifion ac yn defnyddio ystafelloedd sengl ar y ward wrth drafod materion o natur sensitif neu gyfrinachol. Unwaith eto, bydd hyn yn cael ei atgyfnerthu gan y Rheolwr Ward newydd.</p> <p>O ran yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig, bydd llen preifatrwydd cawod yn cael ei osod ar y tu mewn i ddrws y ciwbicl yn yr ystafell ymolchi.</p>	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd
12	Mae'n ofynnol neilltuo therapi galwedigaethol ar bob ward er mwyn sicrhau bod cleifion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ac yn derbyn therapïau a fydd yn eu cynorthwyo i wella.	Ceir mynediad at ddarpariaeth Therapi Galwedigaethol ar Ward 14 ac yn yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig. Mae'r ddau Therapydd Galwedigaethol yn gweithio ar Ward 14 ac yn y Tîm Triniaeth Gartref i gynnig mewnbwn i gleifion, ynghyd â rhai oriau gradd cymorth i gynnig mewnbwn therapiwtig penodol. Daw'r mewnbwn Therapi Galwedigaethol penodol ar gyfer yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig gan aelod o staff gradd	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd

Rhif Tudalen	Argymhelliad	Camau gan y Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		<p>gweithiwr cymorth, dan oruchwyliaeth. Recriwtiwyd i'r swydd hon erbyn hyn.</p> <p>Mae gweithgareddau Therapi Galwedigaethol yn benodol i anghenion a aseswyd unigolyn, a chaiff rhaglenni unigol eu llunio gyda'r claf. Defnyddir yr arfer hwn yn hytrach na ffitio pobl i mewn i sesiynau/amserlen a drefnwyd ymlaen llaw. Mae'r Therapyddion yn gweithio'n agos gyda staff ar y ward i gefnogi diwylliant cyffredinol o weithgarwch, ac yn sicrhau bod hyn yn ystyrlon i'r cleifion ac yn adlewyrchu eu dymuniadau a'i galluoedd gweithredol.</p>		
12	Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r gyllideb sydd ar gael ar gyfer therapi galwedigaethol fel y gellir cael gafael ar yr holl offer angenrheidiol.	Tra bod offer gweithgarwch cleifion yn cael ei awdurdodi gan y Rheolwr Cyffredinol, bydd yr adnoddau a neilltuir ar gyfer yr eitemau hyn yn cael eu hadolygu.	Rheolwr Cyffredinol	31 Mawrth 2015
12	Mae angen rhoi sylw i'r holl faterion a nodir yn yr adran hon ac mae angen mynd i'r afael â nhw fel mater o frys. Yn benodol, mae angen trosglwyddo canlyniadau asesu risg i gynlluniau gofal a thriniaeth; tystiolaeth fod y drefn feddyginiaeth yn cael ei thrafod gyda chleifion; mynegai strwythuredig ym mhob ffeil i nodi lle caiff gwybodaeth ei	Mae'r Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl yn cynnal archwiliadau sicrhau ansawdd drwy'r uwch nyrs, sy'n monitro cydymffurfiad â chynllunio gofal a thriniaeth. Mae'r Pennaeth Nyrsio wedi comisiynu cyfres o adolygiadau POINT ar gyfer pob safle cleifion mewnol. Yn dilyn yr adborth llafar gan dîm ymweld AGIC, cynhaliwyd adolygiad ar unwaith gan Uwch Nyrs, ynghyd â Thîm y Ward.	Rheolwr y Gwasanaethau i Oedolion	Cwblhawyd

Rhif Tudalen	Argymhelliad	Camau gan y Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	<p>storio a siartiau cydbwysedd hylif i gael eu cwblhau'n briodol.</p>	<p>Rhoddodd Rheolwr y Ward a'r Arweinydd Clinigol sylw i'r materion hyn a hysbyswyd staff am yr angen i gwblhau'r asesiad risg yn llawn, gan nodi cyfansymiau hylifau a sicrhau bod y wybodaeth hon yn hysbysu cynllun gofal yr unigolyn.</p> <p>Aeth y Nyrs Datblygu Clinigol i'r ward hefyd i gynnig rhagor o wybodaeth a chymorth i Reolwr y Ward o ran hylif, maetheg a hylendid y geg a chadw cofnodion cysylltiedig. Hysbyswyd y Pennaeth Nyrsio am yr adolygiad cychwynnol a gwnaed gwaith dilynol fel oedd yn briodol.</p> <p>Mae Rheolwr y Gwasanaethau Iechyd Meddwl i oedolion wedi hysbysu y bydd uwch nyrs, sy'n annibynnol ar dîm y ward, yn cynnal cyfres o archwiliadau i sicrhau y rhoddir sylw priodol i bob cam gweithredu yn rheolaidd.</p>		
13	<p>Mae angen cynnal adolygiad o'r bwyd a ddarperir i gleifion er mwyn sicrhau bod digon o fwyd ac amrywiaeth ar gael.</p>	<p>Mae Rheolwr Gwasanaethau Arlwygo Ysbyty Tywysoges Cymru wedi cydnabod bod Fframwaith Bwydlen Cymru Gyfan ar waith, er y gallai rhai pryddau ailymddangos i'r cleifion hynny ag arosiadau hwy. Ar hyn o bryd, mae hyn yn cynnwys 18 cawl, 38 eitem prif gwrs a 42 pwdin, byrbryd a chyfwyd. Hefyd, adolygir holiaduron ansawdd bwyd bob mis a chaiff y canlyniadau eu rhaedru i Reolwr Sicrhau Ansawdd y Bwrdd</p>	Rheolwr y Ward	31 Mawrth 2015

Rhif Tudalen	Argymhelliad	Camau gan y Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		<p>Iechyd.</p> <p>Hefyd, mae grŵp blasu bwyd ar waith ym mhob ysbyty, gan wahodd cynrychiolwyr o wasanaethau iechyd meddwl.</p> <p>Trafodwyd y mater hwn ymhellach gyda chynrychiolwyr y Gwasanaethau Gwesty a'r Gyfarwyddiaeth yng nghyfarfod dilynol Gwasanaethau Cymorth Clinig Coety.</p>		
13	Dylid annog cleifion i ddewis eu prydau eu hunain o fwydlenni a ddarperir lle y bo'n bosibl.	Bydd Rheolwr y Ward yn atgyfnerthu'r angen i staff y ward sicrhau bod prydau'n cael eu harchebu ymlaen llaw i sicrhau nad yw dewis cleifion yn cael ei beryglu.	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd
14	Os yw'r Rheolwr Gwasanaethau Clinigol am gadw ffeiliau staff, mae'n ofynnol bod mynediad at y ffeiliau ar gael i reolwyr wardiau a phersonél uwch eraill bob amser.	Cedwir yr holl ffeiliau personél ar lefel y ward erbyn hyn, ac fe'u rheolir gan Reolwr y Ward.	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd
14	Mae gormod o systemau ar waith ar gyfer cofnodi a monitro cofrestriad proffesiynol, sy'n arwain at ddata anghywir. Dylai fod un system ar waith i gofnodi a monitro data.	Mae'r Rheolwr Gwasanaethau Clinigol wedi cyflwyno system gadarn bellach ar gyfer cofnodi a monitro cofrestriad proffesiynol.	Rheolwr Gwasanaethau Clinigol	Cwblhawyd
14	Mae angen sefydlu, cofnodi ac ymsefydlu goruchwyliaeth staff reolaidd ar gyfer yr holl staff.	Nid yw Polisi Goruchwyllo a Llywodraethu Arfer y Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl (Atodiad 2) wedi'i ymsefydlu'n llawn ym mhob maes ar draws y	Rheolwyr Ward yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig a Ward	31 Mawrth 2015

Rhif Tudalen	Argymhelliad	Camau gan y Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		<p>Gyfarwyddiaeth. Yn dilyn cyflwyniad diweddar Polisi Goruchwyliaeth Glinigol y Bwrdd Iechyd, mae'r Pennaeth Nyrsio, drwy'r Fforwm Nyrsio Proffesiynol, wedi amlygu'r angen i adfywio a sefydlu'r arfer hwn yn llawn ar draws y Gyfarwyddiaeth. Mae cronfa ddata lawn o oruchwylwyr ar waith, ac mae llawer o staff yn defnyddio'r broses, ond nid pob un ohonynt. Mae ymdrechion ychwanegol yn cael eu gwneud i sicrhau bod pawb yn ei defnyddio'n fel mater o arfer. Mae Rheolwyr Ward 14 a'r Uned Gofal Dwys Seiciatrig yn cyflawni goruchwyliaeth glinigol reolaidd ar gyfer eu staff ward, sy'n ogystal â Gweithdrefn Adolygu Datblygiad Personol y Bwrdd Iechyd, a chedwir cofnod ysgrifenedig.</p>	14	
14	<p>Dylai'r bwrdd iechyd adolygu gwybodaeth a dealltwriaeth staff o ran Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, Deddf Iechyd Meddwl 1983, y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Dylid darparu hyfforddiant i staff fel sy'n ofynnol er mwyn sicrhau cysondeb o ran gwybodaeth a defnydd.</p>	<p>Ceir cynllun hyfforddiant yn y Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl sy'n cael ei adolygu'n flynyddol. Un rhan annatod o'r cynllun hwn yw'r hyfforddiant parhaus o ran y meini prawf hyn. Mae darpariaeth y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn ofyniad statudol a bydd addasrwydd yr hyfforddiant yn cael ei adolygu ymhellach, yn enwedig yng ngoleuni newidiadau deddfwriaethol diweddar. Caiff cydymffurfiaid yn y maes hwn ei fonitro'n</p>	Rheolwr y Gwasanaethau i Oedolion	1 Mai 2015

Rhif Tudalen	Argymhelliad	Camau gan y Bwrdd lechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		fisol gan y Bwrdd lechyd hefyd, gan ddefnyddio'r mesuryddion gofal nyrsio.		
15	Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau AGIC bod yr holl staff sy'n gweithio gyda grŵp cleifion agored i niwed yn derbyn yr holl archwiliadau gofynnol i gefnogi gweithdrefnau diogelu cadarn.	<p>Mae'n ofynnol i'r holl staff sydd newydd eu penodi neu'r rhai sy'n symud i wahanol swydd yn y Bwrdd lechyd dderbyn archwiliad boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd fel amod o'r cynnig o waith. Mae'n ofynnol i'r holl staff ddatgan unrhyw broblemau neu bryderon yn ymwneud â'u hymddygiad yn y gwaith neu'r tu allan, i'w rheolwr llinell ar unwaith yn rhan o'u contractau cyflogaeth. Byddai methiant i wneud hynny yn cael ei roli'n unol â Pholisi Disgyblu'r Bwrdd lechyd a gallai arwain at gamau disgyblu, hyd at ac yn cynnwys diswyddiad.</p> <p>Mae'r Bwrdd lechyd wedi ymrwymo i ddilyn polisi GIG Cymru o ran adnewyddu archwiliadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd bob tair blynedd. Mae'r ymrwymiad hwn yn cael ei reoli ar sail Cymru gyfan oherwydd maint yr ymarfer a'r baich fyddai ar y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd pe nai bai dull cydgysylltiedig ar draws GIG Cymru a'r costau sy'n gysylltiedig â'r broses adnewyddu. Rydym yn ymwybodol bod cynlluniau'n cael eu llunio o ran y mater hwn ac wrth gwrs, byddwn yn cydymffurfio'n llawn ag unrhyw benderfyniad terfynol ar sut i ddatrys y</p>	<p>Arfer Cyfredol</p> <p>Cymru Gyfan</p>	<p>I'w gadarnhau, yn disgwyl diweddariad ar sail Cymru Gyfan</p>

Rhif Tudalen	Argymhelliad	Camau gan y Bwrdd lechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		mater hwn.		
15	Mae angen i'r Bwrdd lechyd adolygu'r weithdrefn o ganiatáu i ffeiliau staff gael eu symud oddi ar y safle i'w diweddarau.	Fel yr amlygwyd eisoes, bydd yr holl gofnodion personél yn cael eu cadw ar lefel y ward.	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd
15	Dylai'r bwrdd ddatblygu trefniadau cadarn ar gyfer adrodd a dwysau pryderon am lefelau staff yn rhagweithiol ac ymatebol.	Mae System Adrodd Digwyddiadau Datix y Bwrdd lechyd yn galluogi staff i godi pryderon uniongyrchol pe bai lefelau staffio yn cwmpo'n is na'r safon ofynnol. Gall Rheolwr y Ward ddwysau materion o'r fath trwy Uwch Reolwyr y Gyfarwyddiaeth fel pryderon yn ymwneud â'r maes hwn a chaiff staff dros dro ychwanegol eu neilltuo yn ôl y gofyn. Mae'r Gyfarwyddiaeth lechyd Meddwl yn cymeradwyo ac yn hyrwyddo Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiad y Bwrdd lechyd yn llawn, ac felly'n ceisio cyfathrebu ac ymateb i holl bryderon y staff sy'n gysylltiedig â gofal cleifion mewn amrywiaeth o ffyrdd, boed yn llafar neu'n ysgrifenedig. Darperir cymorth ar sail 24/7 a cheir cyswllt uwch ar-alwad y tu allan i oriau'r swyddfa os oes ei angen.	Rheolwr Gwasanaeth	Cwblhawyd
15	Mae angen datblygu strategaeth ar gyfer y gwasanaeth ac mae'n rhaid i'r bwrdd gymryd camau i gyfathrebu a darparu cynlluniau recriwtio'n llawn.	Mae'r Bwrdd lechyd, drwy'r Cyfarwyddwyr Nyrsio a Phrofiad y Claf ac Adnoddau Dynol, yn cynnal adolygiad ac yn ailwampio'r cynllun gofal. Mae'r Gyfarwyddiaeth lechyd Meddwl yn cymryd rhan ymarferol yn y broses hon drwy'r Pennaeth	Cyfarwyddwr Nyrsio a Phrofiad y Claf	I'w adolygu ar 30 Ebrill 2014

Rhif Tudalen	Argymhelliad	Camau gan y Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		Nyrsio.		
17	Roedd y nodiadau ward ar gyfer y Ddeddf Iechyd Meddwl yn y brif ffeil ac nid oedd llawer yn cynnwys adran gref y gellir ei nodi'n rhwydd i'w gwneud yn rhwydd cyfeirio atynt. Mae'r papurau adran hyn yn bapurau cyfreithiol a dylid eu storio fel y gall staff hyfforddedig sy'n gofalu am y cleifion sicrhau eu hunain am gyfreithlondeb cadw'r claf.	Mae'r Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl, ar ôl sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen cofnodion iechyd, bellach wedi cyflwyno cofnod clinigol penodol ar gyfer Iechyd Meddwl ar draws y Gyfarwyddiaeth, er mwyn sicrhau bod gwybodaeth gynhwysfawr, gywir a phrydlon ar gael i glinigwyr.	Rheolwyr Gwasanaeth	Cwblhawyd
17	Nid oedd rhai ffurflenni Deddf Iechyd Meddwl ar lefel y ward yn nodi ethnigrwydd cleifion.	Atgoffwyd staff wardiau i fod yn ystyriol o gefndir ethnig pob claf a'i gofnodi'n briodol.	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd
17	Nid oedd hyfforddiant Deddf Iechyd Meddwl 1983 wedi cael ei gynnal yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, o bosibl oherwydd y diffyg staff wedi'u hyfforddi.	Mae Rheolwyr Ward yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig a Ward 14 wedi trafod y ddarpariaeth hon o hyfforddiant ar gyfer staff y wardiau gyda Rheolwr y Ddeddf Iechyd Meddwl.	Rheolwyr Wardiau'r Uned Gofal Dwys Seiciatrig a Ward 14	31 Mawrth 2015

Rhif Tudalen	Argymhelliad	Camau gan y Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
17	Dylai rheolwyr gydnabod yr angen i sganio deunydd Deddf Iechyd Meddwl fel bod papurau cyfreithiol llawn ar gael. Mae'n rhaid i'r staff adael y ward i wneud hyn ar hyn o bryd.	Archebwyd sganwyr delweddau ar gyfer Ward 14 a'r Uned Gofal Dwys Seiciatrig.	Rheolwr Cyffredinol Cynorthwyol	31 Mawrth 2015